

Cynllun Iaith Gymraeg

Paratowyd yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg, 1993

11^{eg} Medi 2006



Datganiad o egwyddor

Mae Comisiynydd Plant Cymru'n mabwysiadu'r egwyddor y bydd y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gydradd wrth gyflawni gwaith ei swyddfa. Mae'r cynllun hwn yn nodi sut bydd Comisiynydd Plant Cymru'n glynu at yr egwyddor honno wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.

Mae'r cynllun hwn yn ymgorffori llawer o arferion gwaith presennol swyddfa'r Comisiynydd Plant wrth wasanaethu'r cyhoedd, ac yn arbennig plant a phobl ifanc yng Nghymru. Ar ben hynny, mae'r swyddfa'n ymroddedig i ddatblygu ei gallu i ddarparu gwasanaeth yn ieithoedd eraill Cymru dros gyfnod hwy o amser. Mae'r cynllun yn cynnwys rhai ymgyrchoedd newydd yn ogystal â ffurfioli'r ymrwymiad a fynegwyd eisoes drwy weithgareddau'r Comisiynydd Plant a'i dîm.

Bydd Comisiynydd Plant Cymru yn gyfrifol am sicrhau bod holl staff ei swyddfa'n ymwybodol o'r ymrwymadau a'r trefniadau hyn, ac yn eu rhoi ar waith.

Yn y cynllun hwn, mae'r term **y cyhoedd** yn golygu unigolion, personau cyfreithiol a chyrrff corfforaethol. Mae'n cynnwys y cyhoedd fel cyfangorff, neu adran o'r cyhoedd, yn ogystal ag aelodau unigol o'r cyhoedd. Mae'r term yn cynnwys sefydliadau gwirfoddol ac elusennau. Mae cyfarwyddwyr ac eraill sy'n cynrychioli cwmnïau cyfyngedig hefyd yn cael eu cwmpasu gan y term. Nid yw, fodd bynnag, yn cynnwys personau sy'n gweithredu gan gynrychioli'r Goron, y Llywodraeth na'r Wladwriaeth. O ganlyniad, ni fydd personau sy'n cyflawni swyddogaethau cyhoeddus eu natur yn swyddogol, er eu bod yn bersonau cyfreithiol, yn cael eu cwmpasu gan ystyr y term *cyhoeddus* hyd yn oed pan fyddant yn cyflawni'r swyddogaethau swyddogol hynny.

Cymeradwyo

Cafodd Cynllun Iaith Gymraeg Comisiynydd Plant Cymru ei gymeradwyo gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg o dan Adran 14 (1) o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 ar 11^{eg} Medi 2006.

Rôl Comisiynydd Plant Cymru

Sefydlwyd Comisiynydd Plant Cymru gan Ddeddf Safonau Gofal 2000 fel Corfforaeth Unigol. Estynnwyd pwerau'r Comisiynydd ymhellach gan Ddeddf Comisiynydd Plant Cymru 2001, a manylir arnynt yn Rheoliadau Comisiynydd Plant Cymru 2001.

Cyflwynir prif nod Comisiynydd Plant Cymru yn Neddf Comisiynydd Plant Cymru 2001, sef 'amddiffyn a hyrwyddo hawliau a lles plant yng Nghymru, neu'r rheiny sydd fel arfer yn byw yng Nghymru'.

Diben y Comisiynydd Plant a'i dîm yw helpu i sicrhau bod plant a phobl ifanc yng Nghymru:

- yn ddiogel rhag niwed a chamdriniaeth
 - yn derbyn y cyfleoedd a'r gwasanaethau y maent yn eu haeddu ac y mae eu hangen arnynt
 - yn cael eu parchu a'u gwerthfawrogi
 - yn medru lleisio barn yn eu cymunedau a chwarae rhan mor llawn â phosibl mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt
- yn gwybod am eu hawliau a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Mae'r prif ffocws ar bawb 18 oed a iau sy'n byw yng Nghymru, neu sydd fel arfer yn byw yng Nghymru. Ond gall y Comisiynydd Plant weithredu hefyd mewn perthynas â phobl ifanc hŷn o dan rai amgylchiadau – er enghraifft, os ydynt wedi derbyn gofal gan yr awdurdod lleol. Os oes goblygiadau ar gyfer plant a phobl ifanc heddiw, gall hefyd ymchwilio i bethau a ddigwyddodd i oedolion pan oedden nhw'n blant.

O dan y ddeddfwriaeth, nid yw rôl y Comisiynydd Plant wedi'i chyfyngu i'r hyn rydym ni fel arfer yn eu hystyried fel materion plant, fel iechyd, addysg a gwasanaethau cymdeithasol. Mae cynllunio, cludiant, yr amgylchedd, datblygu economaidd a materion gwledig hefyd o fewn cwrmpas ei rôl. Gall y Comisiynydd:

- adolygu effeithiau polisïau, polisïau arfaethedig a chyflwyno gwasanaethau i blant
- archwilio achos plentyn neu blant penodol os yw'n ymwneud â mater sy'n fwy cyffredinol berthnasol i fywydau plant yng Nghymru
- gofyn bod asiantaethau neu bersonau sy'n gweithredu ar eu rhan yn darparu gwybodaeth, a gofyn bod tystion yn rhoi tystiolaeth ar eu llw
- darparu cyngor a chymorth i blant a phobl ifanc, ac eraill

Mae gan Gomisiynydd Plant Cymru hefyd bŵer ychwanegol i ystyried a chyflwyno cynrychioliadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar **unrhyw fater** sy'n effeithio ar hawliau a lles plant yng Nghymru. Mae hyn yn golygu ei fod yn medru delio â materion y tu allan i gyfrifoldeb y Cynulliad Cenedlaethol, fel cyfiawnder ieuencid, llysoedd teulu, a budd-daliadau nawdd cymdeithasol.

Wrth gyflawni ei waith, mae'r ddeddfwriaeth yn nodi bod rhaid i'r Comisiynydd:

- sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gwybod ble mae ei swyddfeydd a sut mae cysylltu ag ef a'i dîm
- annog plant i gysylltu ag ef a'r tîm
- gofyn barn plant am ei waith a'i waith yn y dyfodol, a chaniatáu iddynt ddylanwadu ar ei raglen waith
- sicrhau ei fod ef a'i staff yn mynd i gwrdd â phlant ble bynnag y maent
- ystyried Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ym mhopeth mae ef a'i dîm yn ei wneud.

Mae'r Comisiynydd Plant a'i staff wedi'u lleoli mewn swyddfeydd yn Abertawe a Bae Colwyn, ond yn gweithio ar draws Cymru. Ymhlith gwasanaethau a gweithgareddau'r swyddfa mae:

- Gwasanaeth cyngor a chefnogaeth i blant a phobl ifanc ac oedolion sy'n pryderu am eu hawliau a'u lles
- Adolygiadau gwasanaeth a pholisi, er enghraifft ar gyfer systemau a'r trefniadau a ddarparwyd ar gyfer cwynion plant, eiriolaeth a rhoi gwybod am gamarfer
- Gwefan ddwyieithog: www.complantcymru.org.uk
- Atebno! / Backchat, sef grŵp ebost i blant a phobl ifanc sy'n rhoi cyfle iddynt roi eu barn a'u safbwynt
- Seminarau, gweithdai a digwyddiadau wedi'u hanelu at gynulleidfaoedd proffesiynol
- Digwyddiadau ar gyfer plant a phobl ifanc i roi cyfle iddynt ddylanwadu a helpu i flaenoriaethu cynllun gwaith y Comisiynydd Plant a'i dîm
- Gwaith ymgynghorol gyda phlant a phobl ifanc
- Rhaglen wedi'i thargedu o weithdai gyda phlant a phobl ifanc o grwpiau diamddiffyn neu 'anodd eu cyrraedd'
- Gweithgaredd dylanwadol a anelwyd at y llywodraeth ar bob lefel a'r cyhoedd yn gyffredinol
- Ystod o weithgareddau a luniwyd i hybu ymwybyddiaeth o hawliau plant ac yn arbennig Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Cynllunio a chyflwyno gwasanaethau

Polisiâu ac ymgyrchoedd

Bydd ein polisiâu, ein hymgyrchoedd a'n gwasanaethau yn cyd-fynd â'r cynllun hwn. Byddant yn cefnogi defnydd o'r Gymraeg a, lle bynnag y bo modd, hefyd yn caniatáu i'r cyhoedd, gan gynnwys plant a phobl ifanc, yng Nghymru, ddefnyddio'r Gymraeg fel rhan o'u bywydau beunyddiol.

Wrth gynllunio a llunio polisiâu ac ymgyrchoedd newydd bydd Comisiynydd Plant Cymru yn asesu eu canlyniadau ieithyddol i sicrhau eu bod yn cyflawni ymrwymadau'r Cynllun Iaith Gymraeg. Rhoddir canllawiau i staff ar yr angen am asesu a oes dimensiwn neu oblygiad i ymgyrch neu waith penodol o safbwynt y Gymraeg. Bydd cymhwyso'r canllawiau hyn yn cael ei fonitro.

- Bydd polisiâu ac ymgyrchoedd newydd a lunnir gan Gomisiynydd Plant Cymru ar gyfer ei waith yng Nghymru yn:
 - a) hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg lle bynnag y bo modd
 - b) symud Comisiynydd Plant Cymru yn nes at weithredu egwyddor cydraddoldeb.
- Bydd holl staff Comisiynydd Plant Cymru sy'n ymwneud â llunio polisi a datblygu gwasanaethau newydd yn cael eu gwneud yn ymwybodol o'r Cynllun ac o gyfrifoldebau Comisiynydd Plant Cymru o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

Cyflwyno gwasanaeth

Ein harfer fydd sicrhau bod ein gwasanaethau ar gael i'r cyhoedd yn y Gymraeg, ac o ansawdd yr un mor uchel â'r gwasanaethau a ddarperir yn Saesneg, drwy:

- Fabwysiadu gweithdrefnau sy'n hwyluso darparu gwasanaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Disgrifir y rhain yn llawnach yn yr adrannau sy'n dilyn.
- Darparu hyfforddiant ac arweiniad i staff i hwyluso gweithrediad y cynllun.
- Hyrwyddo gweithio'n ddwyieithog yn y swyddfa a nodi gwasanaethau cyfieithu effeithiol, o ansawdd uchel, a gwneud trefniadau priodol i gael cyfieithiadau cyflym a dibynadwy o'r holl ddeunydd perthnasol.

Ein swyddogaethau rheoliadol – a gwasanaethau a gyflawnir ar ein rhan gan drydydd parti

Bydd unrhyw gytundebau neu drefniadau a wnawn gyda thrydydd parti yn cyd-fynd â'r rhannau perthnasol o'r cynllun hwn, lle bydd y cytundebau neu'r trefniadau hynny'n ymwneud â darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.

Bydd hyn yn cynnwys gwasanaethau sy'n cael eu contractio allan, caniatáu trwyddedau, a rhoi caniatâd arall.

Ansawdd a safon y gwasanaeth

- Bydd y gwasanaeth a ddarperir yn Gymraeg o safon yr un mor uchel â'r hyn a ddarperir yn Saesneg. Bydd Comisiynydd Plant Cymru'n sicrhau ei fod yn darparu safon gyson o wasanaeth yn y Gymraeg ar draws ei weithgareddau.
- Bydd y safonau a ddefnyddir ar gyfer y gwasanaeth Cymraeg a'u gweithrediad yn cael eu monitro'n flynyddol.
- Bydd gwybodaeth ynghylch cyflawniadau Comisiynydd Plant Cymru o dan y Cynllun hwn yn cael eu cynnwys yn ei Adroddiad Blynyddol bob blwyddyn.

Delio â'r cyhoedd

Gohebiaeth ysgrifenedig

- Mae Comisiynydd Plant Cymru'n croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg, fel yn Saesneg
- Bydd gohebiaeth yn y Gymraeg yn derbyn sylw yr un mor gyflym â gohebiaeth Saesneg.
- Bydd pob ymateb gan Gomisiynydd Plant Cymru yn iaith y llythyr gwreiddiol.
- Bydd yr holl ohebiaeth yn Gymraeg yn dilyn sgwrs wyneb yn wyneb neu dros y ffôn yn Gymraeg, oni bai fod y person dan sylw wedi gwneud cais fel arall.
- Pan fyddwn yn dechrau gohebu gydag aelod o'r cyhoedd, grŵp neu sefydliad, byddwn yn gwneud hynny'n ddwyieithog oni bai ein bod yn gwybod y byddai'n well ganddynt ohebu yn Gymraeg neu yn Saesneg yn unig.
- Bydd llythyr oddi wrth Gomisiynydd Plant Cymru at unigolion, grwpiau neu sefydliadau y mae Comisiynydd Plant Cymru'n gwybod eu bod yn gweithio yn Gymraeg yn bennaf, neu ei fod yn well ganddynt dderbyn llythyron yn Gymraeg, yn Gymraeg.
- Bydd Comisiynydd Plant Cymru'n datblygu ac yn cynnal cronfa ddata o'r rheiny sydd am i'w gohebiaeth gyda'r swyddfa fod yn Gymraeg.
- Bydd cylchlythyron neu lythyron safonol bob amser yn cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog.
- Bydd papurau a anfonir gyda llythyron dwyieithog hefyd yn ddwyieithog, lle maent ar gael felly.
- Bydd papurau a anfonir gyda llythyron Cymraeg yn Gymraeg neu'n ddwyieithog, lle maent ar gael.
- Bydd yr uchod yn berthnasol i ohebiaeth ebost yn ogystal â gohebiaeth ar bapur.
- Bydd yr holl ohebiaeth Gymraeg a gyflwynwn ar gopiâu papur yn cael eu llofnodi.
- Bydd arweiniad ysgrifenedig ar yr uchod yn cael ei roi i'r holl staff.

Cyfathrebu dros y ffôn

- Mae Comisiynydd Plant Cymru'n croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg, fel yn Saesneg.
- Bydd yr holl rifau ffôn a hysbysebiri yn gyhoeddus yn cael eu hateb yn ddwyieithog, ac anogir staff sydd â rhifau ffôn uniongyrchol i wneud yr un modd. Os nad yw'r aelod o staff yn siarad Cymraeg, bydd ef/hi yn esbonio hynny'n gwrtais ac yn cynnig trosglwyddo'r alwad i siaradwr Cymraeg sy'n gymwys i ddelio â'r ymholiad.
- Os na all yr aelod o staff ddelio â'r alwad yn Gymraeg, lle bydd modd trosglwyddir y sawl sy'n galw i siaradwr Cymraeg sy'n medru delio â'u hymholiad.
- Ar unrhyw adeg pan na fydd siaradwr Cymraeg ar gael i ddelio gydag ymholiad, rhoddir dewis i'r galwr barhau â'r alwad yn Saesneg neu fod siaradwr Cymraeg yn dychwelyd yr alwad cyn gynted â phosib. Bydd y galwr hefyd yn cael dewis rhoi'r ymholiad ar bapur; os byddant yn ysgrifennu yn Gymraeg byddant yn derbyn ymateb yn Gymraeg.
- Bydd cyfarchiad dwyieithog ar beiriannau ateb ein switsfyrddau, a gwahoddir y rheiny sy'n galw i adael neges yn y naill iaith neu'r llall. Bydd staff eraill yn cael eu hannog i adael neges dwyieithog ar eu peiriant ateb.
- Bydd arweiniad ysgrifenedig ar yr uchod – gan gynnwys rhestr o siaradwyr Cymraeg o fewn y sefydliad – yn cael ei roi i'r holl aelodau o staff.
- Pan fyddwn yn gosod llinellau cymorth, neu gyfleusterau tebyg, i roi gwybodaeth, gwasanaethau neu gymorth i'r cyhoedd, byddwn yn darparu gwasanaeth Cymraeg. Hysbysebiri hyn ochr yn ochr â'r gwasanaeth iaith Saesneg. Bydd y ddau wasanaeth yn rhannu'r un rhif ffôn.

Cyfarfodydd ag aelodau o'r cyhoedd

Mae Comisiynydd Plant Cymru'n trefnu cyfarfodydd gydag amrywiaeth eang o sefydliadau a grwpiau, gan gynnwys:

- a) cyrff sector cyhoeddus/statudol eraill
 - b) cyrff gwirfoddol
 - c) grwpiau cymunedol, grwpiau defnyddwyr gwasanaeth ac ati
 - ch) cynadleddau i'r wasg a chyfarfodydd briffio
 - d) plant a phobl ifanc
- Pan fydd Comisiynydd Plant Cymru'n trefnu cyfarfod neu ddiwyddiad o'r fath, croesawir cyfraniadau yn Gymraeg neu yn Saesneg; byddwn yn rhoi gwybod i'r cyfranogwyr am hyn ymlaen llaw, cyn y cyfarfod, ac yn eu gwahodd i roi gwybod i ni p'un yw ei dewis iaith.
 - Pan drefnir cyfarfod cyhoeddus gan Gomisiynydd Plant Cymru byddwn yn darparu cyfleusterau cyfieithu neu ddehongli ar gyfer y rheiny nad ydynt yn medru'r Gymraeg.
 - Bydd y ffaith fod cyfieithu ar y pryd ar gael yn cael ei wneud yn hysbys ar ddechrau'r cyfarfod, a dosbarthir yr offer priodol.
 - Bydd yr holl gyhoeddusrwydd ar gyfer y cyfarfodydd a restrir uchod yn ddwyieithog ac yn egluro natur ddwyieithog y cyfarfod.
 - Mae swyddfa'r Comisiynydd Plant yng Nghymru yn croesawu cyfarfodydd wyneb yn wyneb gydag aelodau unigol o'r cyhoedd yn y Gymraeg a/neu'r Saesneg.

Ar gais, bydd Comisiynydd Plant Cymru yn trefnu bod aelod o staff sy'n medru'r Gymraeg ar gael i gwrdd ag aelod o'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg.

Os nad oes siaradwr Cymraeg cymwys ar gael, byddwn yn rhoi dewis o barhau â'r cyfarfod yn Saesneg, neu ddelio â'r testun drwy ohebu yn Gymraeg.

Bydd yr uchod hefyd yn berthnasol i gyfarfodydd a gynhelir drwy fideo-gynadledda a chyfarpar tebyg.

Trafodion eraill gyda'r cyhoedd

- Mae'r ymrwymadau uchod yn cwmpasu dulliau presennol Comisiynydd Plant Cymru o gyfathrebu'n uniongyrchol ag aelodau o'r cyhoedd. Bydd unrhyw ymgyrchoedd yn y dyfodol wedi'u seilio ar yr egwyddorion cydraddoldeb ieithyddol a nodwyd uchod.
- Pan fyddwn yn trefnu seminarau, cyrsiau hyfforddi neu ddiwyddiadau tebyg ar gyfer y cyhoedd, byddwn yn asesu'r angen am eu darparu yn Gymraeg.
- Bydd unrhyw arddangosfeydd clyweledol, neu gyfryngau rhyngweithiol a baratown yn ddwyieithog.

Ymarfer Pwerau Statudol Comisiynydd Plant Cymru

Bydd y cynllun hwn yn berthnasol i weithgareddau sy'n ymwneud ag ymarfer pwerau statudol Comisiynydd Plant Cymru o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000, Deddf Comisiynydd Plant Cymru 2001 a'r rheoliadau perthnasol, ac unrhyw ddeddfwriaeth yn y dyfodol sy'n newid y pwerau hyn.

Er enghraifft, bydd adolygiadau gwasanaeth neu bolisi'n cynnwys defnyddio holiaduron dwyieithog a rhoddir cyfle i'r rheiny gaiff eu cyfweld wneud hynny yn Gymraeg ac, i'r graddau y mae hynny'n bosib, i ddefnyddio'u dewis iaith ar hyd y broses adolygu.

Wyneb cyhoeddus Comisiynydd Plant Cymru

Hunaniaeth gorfforaethol

- Mae Comisiynydd Plant Cymru wedi mabwysiadu hunaniaeth gorfforaethol gwbl ddwyieithog.
- Mae holl bapur pennawd, slipiau cyfarch, cloriau ffacs, penawdau datganiadau i'r wasg a chardiau busnes Comisiynydd Plant Cymru yn ddwyieithog.
- Mae'r logo'n cynnwys enw Comisiynydd Plant Cymru yn Gymraeg a Saesneg.
- Bydd arwyddion mewnol mewn manau cyhoeddus yn swyddfeydd Comisiynydd Plant Cymru yn ddwyieithog, yn ogystal ag unrhyw arwyddion allanol ar gyfer y swyddfeydd.

Cyhoeddi a deunydd a argraffir

Fel mater o bolisi ein harfer fydd cyhoeddi deunydd a ddarperir i'r cyhoedd yn ddwyieithog, gyda'r fersiynau Cymraeg a Saesneg gyda'i gilydd mewn un ddogfen.

Os oes rhaid cynhyrchu'r fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân (er enghraifft, lle byddai un ddogfen yn rhy hir neu swmpus), bydd y ddwy fersiwn o'r un maint ac ansawdd – a'n harfer fydd sicrhau bod y ddwy fersiwn ar gael ar yr un pryd, a'u bod yr un mor hygyrch. Bydd y ddwy fersiwn yn nodi'n glir bod y deunydd ar gael yn yr iaith arall.

Byddwn yn defnyddio system sgorio, a gytunir gyda'r Bwrdd, i nodi'n wrthrychol pryd dylid cyhoeddi deunydd mewn fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân neu ar ffurf dogfennau dwyieithog.

Os nad yw ar gael yn ddi-dâl, ni fydd pris dogfen ddwyieithog yn fwy na phris cyhoeddiad mewn un iaith – a bydd pris fersiynau Cymraeg a Saesneg sydd ar wahân yr un fath.

Bydd yr uchod hefyd yn berthnasol i ddeunydd a ddarperir yn electronig ar ein gwefan, ar CD Rom neu fel arall.

Bydd adroddiadau'n cael eu cyhoeddi ar yr un pryd yn y ddwy iaith, fel arfer ar ffurf un cyhoeddiad dwyieithog. Lle ceir briffio mwy manwl ar faterion na fwriedir eu cyhoeddi'n gyffredinol, os nad yw'r ddogfen ar gael ond yn y Saesneg trefnir cyfieithiad os ceir cais am fersiwn Gymraeg.

- Bydd ffontiau Cymraeg ar holl gyfrifiaduron swyddfa Comisiynydd Plant Cymru.
- Bydd yr holl staff sy'n gyfrifol am ddylunio a chyhoeddi cyhoeddiadau Comisiynydd Plant Cymru yn derbyn arweiniad ysgrifenedig o ran cyhoeddiadau dwyieithog.
- Rhoddir arweiniad ysgrifenedig ar yr uchod i'r holl staff.

Ffurflenni a holiaduron

- Bydd ffurflenni a deunydd esboniadol dwyieithog ar gael. Os caiff y Gymraeg a'r Saesneg eu hargraffu ar wahân oherwydd trafferthion gyda'r cyflwyniad bydd y ddwy fersiwn ar gael yr un mor hwylus ac yn cael eu dosbarthu gyda'i gilydd. Bydd y fersiynau yn y ddwy iaith yn nodi bod y ffurflen ar gael yn y llall hefyd.

- Yn achos unrhyw adolygiad, arolwg neu astudiaeth arall gan Gomisiynydd Plant Cymru, lle ceir ffurflenni ymateb ysgrifenedig neu holiaduron, bydd y ffurflenni, ac unrhyw gyfarwyddyd perthnasol, yn cael eu cyflwyno'n ddwyieithog.

Datganiadau i'r wasg

- Bydd datganiadau i'r wasg a'r cyfryngau torfol yng Nghymru'n cael eu cyflwyno yn Gymraeg a Saesneg lle mae'r terfynau amser yn caniatáu neu yn unol â dewis iawn y sefydliad cyfryngau neu'r cyhoeddiad sy'n eu derbyn.
- Bydd Comisiynydd Plant Cymru'n sicrhau bod cyswllt sy'n medru'r Gymraeg ar gael ym mhob cynhadledd i'r wasg a chynhadledd newyddion.
- Lle bo modd, byddwn yn sicrhau bod siaradwyr Cymraeg ar gael i'w cyfweld gyda'r wasg Gymraeg a'r cyfryngau torfol.

Gwefan

- Bydd Gwefan Comisiynydd Plant Cymru ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg ac yn cael ei hygyrchu o borth dwyieithog. Lle bo'n briodol (e.e. tudalennau a gysylltir ag ymgyrchoedd i blant a phobl ifanc neu gyhoeddi adroddiadau) bydd y tudalennau'n rhai dwyieithog.
- Ein harfer fydd darparu fersiynau Cymraeg o'r tudalennau rhyngweithiol ar ein gwefan.
- Wrth ddylunio gwefannau newydd, neu ailddatblygu'n gwefan bresennol, byddwn yn ystyried canllawiau Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar ddylunio gwefannau.
- Pryd bynnag y byddwn yn gosod cyhoeddiadau Saesneg ar ein gwefan, bydd y fersiynau Cymraeg yn cael eu cynnwys ar yr un pryd, os ydynt ar gael.

Cyhoeddusrwydd a gweithgareddau hyrwyddo

- Bydd gweithgareddau hysbysebu a chyhoeddusrwydd Comisiynydd Plant Cymru'n cael eu cynnal yn ddwyieithog, gan drin y ddwy iaith yn gyfartal.
- Bydd arddangosfeydd a stondinau arddangos cyhoeddus a baratoir gan Gomisiynydd Plant Cymru bob amser yn cynnwys deunydd dwyieithog.
- Bydd holl faneri a deunyddiau arddangos Comisiynydd Plant Cymru naill ai'n ddwyieithog neu yn y Gymraeg a'r Saesneg, gyda chyfarwyddyd y dylid defnyddio'r ddwy faner gyda'i gilydd.

Hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysebu i recriwtio staff

- Bydd hysbysiadau cyhoeddus yn y wasg yng Nghymru yn y ddwy iaith, gyda'r fersiynau Cymraeg a Saesneg yn cael eu harddangos gyda'i gilydd ac yn derbyn statws cydradd.
- Bydd yr holl hysbysebu recriwtio am staff i weithio yn swyddfa Comisiynydd Plant Cymru yn ddwyieithog.
- Yn y cyfryngau Saesneg, gellir hysbysebu swyddi lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol yn Gymraeg, gyda disgrifiad cryno yn Saesneg.

Rhoi'r cynllun ar waith a'i fonitro

Staffio

- Bydd gan Gomisiynydd Plant Cymru ddigon o siaradwyr Cymraeg â sgiliau priodol i sicrhau bod modd darparu gwasanaeth llawn drwy gyfrwng y Gymraeg.
- O bryd i'w gilydd, byddwn yn cynnal archwiliadau i sefydlu nifer, lefel gallu a lleoliad staff sy'n medru siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg (gan gynnwys staff sy'n dysgu Cymraeg). Byddwn hefyd yn nodi staff sydd am ddysgu Cymraeg.
- Byddwn yn nodi'r gweithleoedd a'r swyddi hynny lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn ddymunol neu'n hanfodol. Gellir diffinio'r gofyniad hwn fel elfen o weithle neu dîm, neu gellir ei gysylltu â swydd benodol.
- Bydd unrhyw ostyngiad yn nifer y staff dwyieithog mewn swyddi sydd â chysylltiad agos â'r Cynllun hwn yn cael ei nodi, a bydd Comisiynydd Plant Cymru'n unioni unrhyw ddiffygion wrth i'r cyfle godi, er enghraifft drwy recriwtio a thrwy ddarparu hyfforddiant er mwyn i staff ddysgu Cymraeg.
- Ein harfer fydd sicrhau bod ein derbynfydd a'n prif switsfyddau bob amser yn medru cynnig gwasanaeth yn Gymraeg.

Dysgu Cymraeg a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg

- Mae Comisiynydd Plant Cymru'n annog ac yn cefnogi staff sy'n gweithio yng Nghymru ac sydd am ddysgu Cymraeg, ac yn cefnogi staff sy'n siarad Cymraeg sydd am wella'u gallu ieithyddol.
- Anogir aelodau o staff yng Nghymru i fynychu cyrsiau addas a anelir at loywi Cymraeg. Lle bernir mai dyna'r defnydd gorau o adnoddau darperir cyrsiau yn y gweithle.
- Bydd aelodau o staff sy'n medru Cymraeg yn annog staff y gwyddys eu bod yn dysgu Cymraeg i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.
- Byddwn yn ariannu'r hyfforddiant hwn ac yn caniatáu i staff fynychu cyrsiau yn ystod oriau gwaith.
- Bydd Comisiynydd Plant Cymru'n sicrhau bod Cysgliad wedi'i osod ar gyfrifiaduron staff sydd am weithio yn y Gymraeg, ac ar gyfrifiaduron yr holl staff gweinyddol y gellir gofyn iddynt weithio ar ddogfennau dwyieithog.
- Mae copïau o Eiriadur Saesneg-Cymraeg yr Academi ac Y Geiriadur Mawr ar gael yn y ddwy swyddfa.

Recriwtio

- Lle mae gallu yn y Gymraeg yn hanfodol ar gyfer swydd bydd y ffaith hon a'r lefelau rhuglder a llythrennedd angenrheidiol yn cael eu nodi wrth recriwtio i'r swydd honno.
- Lle gwneir penodiad ac mae angen datblygu lefel rhuglder neu lythrennedd y person a benodwyd ymhellach, cynigir hyfforddiant a chefnogaeth briodol.
- Os bydd angen penodi person nad yw'n medru'r Gymraeg i swydd lle bernir bod y gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol, bydd yn amod cyflogaeth eu bod yn dysgu'r iaith hyd at y lefel angenrheidiol o fewn cyfnod rhesymol, gyda chefnogaeth Comisiynydd Plant Cymru. Bydd yr amod hon yn cael ei gwneud yn hysbys i'r ymgeiswyr wrth recriwtio.
- Pan na ellir cael hyd i ymgeiswyr addas sy'n siarad Cymraeg ar gyfer swydd lle mae Cymraeg yn *hanfodol* (neu tra bod ymgeisydd nad yw hyd yma'n medru siarad Cymraeg wedi cael ei b/phenodi ac yn dysgu'r iaith), byddwn yn gwneud trefniadau dros dro ar gyfer darparu'r gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg (er enghraifft, drwy ddefnyddio siaradwyr Cymraeg o rannau eraill o'r sefydliad i gyflwyno rhannau o'r gwasanaeth).

- Lle na ellir cael hyd i ymgeiswyr addas sy'n siarad Cymraeg ar gyfer swydd lle mae'r Gymraeg yn ddymunol, anogir y person a benodir i ddysgu Cymraeg.
- Bydd Comisiynydd Plant Cymru'n annog ceisiadau gan siaradwyr Cymraeg am swyddi gwag drwy:
 - a) Sicrhau bod yr holl hysbysebu recriwtio'n ddwyieithog.
 - b) Ystyried gosod hysbysebu recriwtio ychwanegol mewn papurau newydd neu gylchgronau Cymraeg, hyd yn oed lle nad yw'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol.
 - c) Cynnwys datganiad bod ceisiadau gan siaradwyr Cymraeg yn cael eu hannog yn yr hysbysebion recriwtio.
- Darperir pecynnau gwybodaeth a ffurflenni cais yn Gymraeg a Saesneg ar gyfer yr holl swyddi gwag yn y sefydliad.

Hyfforddiant galwedigaethol

- Bydd Comisiynydd Plant Cymru'n asesu'r angen am hyfforddiant penodol ar gyfer cyfathrebu yn y Gymraeg a sgiliau perthnasol eraill i'r staff.

Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

- Byddwn yn darparu ar gyfer yr angen am ddarparu gwybodaeth a gwasanaethau yn Gymraeg, a gweithredu'n unol â'r cynllun hwn, wrth i ni ddatblygu, dylunio a phrynu cynnyrch a gwasanaethau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu.
- Pryd bynnag y bo modd, byddwn yn addasu'n systemau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu presennol i sicrhau eu bod yn ein galluogi i ddarparu gwybodaeth a gwasanaethau yn Gymraeg – a gweithredu'n unol â'r cynllun hwn.

Trefniadau Gweinyddol

- Mae Comisiynydd Plant Cymru'n cefnogi'n llwyr, yn awdurdodi ac yn cymeradwyo'r Cynllun hwn a bydd yn rhoi pob awdurdod iddo yn ystod ei weithrediad.
- Rhoddir copïau o'r Cynllun drafft i holl staff Comisiynydd Plant Cymru pan gaiff ei gyflwyno ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus gyda nodiadau arweiniol yn egluro'i bwysigrwydd a'i berthnasedd.
- Mae'r ymrwymïadau a'r trefniadau a amlinellir yn y Cynllun hwn wedi cael eu cymeradwyo gan Gomisiynydd Plant Cymru ac mae ganddynt ei gefnogaeth llwyr.
- Cynhelir hyfforddiant i roi gwybod i'r staff am eu cyfrifoldebau o fewn y Cynllun, a'r cyd-destun ehangach o ran cyflwyno'n gwasanaethau, cyfle cyfartal a materion diwylliannol.
- Bydd pob aelod newydd o staff yn derbyn arweiniad manwl o ran y Cynllun fel rhan o'u Pecyn Croeso i weithwyr newydd. Byddant hefyd yn cael eu gwneud yn ymwybodol o'r Cynllun fel rhan o'u rhaglen hyfforddiant sefydlu.
- Bydd Comisiynydd Plant Cymru'n nodi gwasanaethau cyfieithu proffesiynol effeithiol a bydd rhestr o gyfieithwyr o'r fath ar gael ar Fewnrwyd y sefydliad i sicrhau bod modd cyfieithu deunydd ysgrifenedig yn gyflym ac yn gywir.
- Ni ddisgwylir i staff Comisiynydd Plant Cymru sy'n medru'r Gymraeg weithredu fel cyfieithwyr mewnol. Lle mae staff yn gyfarwydd â gweithio'n ddwyieithog, gellir defnyddio disgrisiwn yn achos darnau byr i'w cyfieithu, yn enwedig wrth gyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg.

- Byddwn yn paratoi, ac yn diweddarau'n rheolaidd, **cynllun gweithredu** manwl i'w gytuno gyda'r Bwrdd, yn nodi sut byddwn yn sicrhau ein bod yn gweithredu'n unol â'r cynllun hwn. Bydd y cynllun gweithredu'n dod i rym ar yr un dyddiad â'r cynllun. Bydd y cynllun yn cynnwys targedau, terfynau amser ac adroddiad ar gynnydd ar gyfer pob targed.
- Bydd **unrhyw gyswilt** â'r cyhoedd yng Nghymru, nad yw'n derbyn sylw penodol yn y cynllun hwn, yn digwydd mewn modd sy'n cyd-fynd ag egwyddorion cyffredinol y cynllun hwn.

Partneriaethau

Mae Comisiynydd Plant Cymru'n gweithio mewn partneriaeth gyda chyrff cyhoeddus, sefydliadau o'r sector gwirfoddol ac asiantaethau eraill. Mae'r Comisiynydd yn gweithio ar sawl lefel wrth weithio gydag eraill:

- Pan yw'r Comisiynydd Plant yn arwain partneriaeth yn strategol ac yn ariannol, bydd yn sicrhau bod y ddarpariaeth o ran gwasanaeth cyhoeddus yn cydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg.
- Pan fydd y Comisiynydd Plant yn ymuno â phartneriaeth mae corff arall yn ei harwain, bydd mewnbyn y Comisiynydd Plant i'r bartneriaeth yn cydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg a bydd y sefydliad yn annog partion eraill i gydymffurfio ag ef.
- Pan fydd y Comisiynydd Plant yn bartner mewn consortiwm, bydd yn annog y consortiwm i fabwysiadu polisi dwyieithog. Wrth weithredu'n gyhoeddus yn enw'r consortiwm, bydd y sefydliad yn gweithredu'n unol â'i Gynllun Iaith Gymraeg.
- Pan fydd y Comisiynydd Plant yn ymuno â phartneriaeth neu'n ffurfio un, bydd yn gofyn i ddarpar bartneriaid am eu Cynlluniau Iaith Gymraeg, eu polisiau iaith, neu sut byddant yn gweithredu'n ddwyieithog. O fewn unrhyw bartneriaeth, bydd y Comisiynydd Plant yn cynnig cyngor a chefnogaeth i'r sefydliadau partner eraill.

Cwynion

- Bydd yr holl gyhoeddusrwydd ynghylch y Cynllun yn nodi at bwy y dylid cyfeirio cwynion ynghylch gweithrediad y Cynllun.
- Bydd yr amser targed ar gyfer clirio cwynion ynghylch y gwasanaeth a ddarperir yn Gymraeg yr un fath ag ar gyfer pob cynw arall.
- Bydd pob cynw a dderbynnir yn cael ei chydabod yn ysgrifenedig.

Monitro

- Byddwn yn monitro'n cynnydd o ran cyflawni'r cynllun hwn yn erbyn y targedau a bennwyd yn y cynllun gweithredu atodol.
- Bydd ein gweithdrefnau monitro ac adrodd presennol yn cynnwys cyfeiriad at gynnydd o ran cyflawni'r cynllun hwn, yn ôl y galw.
- Byddwn yn anfon adroddiadau monitro at Fwrdd yr Iaith Gymraeg, ar gais ganddynt, yn amlinellu'n cynnydd o ran cyflawni'r cynllun hwn.

Cyfrifoldeb cyffredinol ac o ddydd i ddydd

Bydd Comisiynydd Plant Cymru'n gyffredinol gyfrifol am fonitro ac adolygu'r Cynllun a bydd yn sicrhau bod yr holl fonitro'n strwythuredig ac yn barhaus a'i fod yn cynnwys y rheiny sy'n darparu neu'n gweinyddu gwasanaethau ar ran Comisiynydd Plant Cymru.

- Y Comisiynydd Cynorthwyol (Cyfathrebu a Chyfranogiad) fydd yn gyfrifol am fonitro ac adolygu'r Cynllun o ddydd i ddydd.
- Sefydliar gweithgor i fonitro'r cynllun yn flynyddol. Bydd aelodau'r gweithgor hwn yn dod o'r holl grwpiau staff yn y sefydliad a'r ddwy swyddfa a bydd grwpiau Ymgynghorol Pobl Ifanc y Comisiynydd Plant hefyd yn cyfrannu at y broses hon.
- Byddwn yn adolygu'r cynllun hwn o fewn pedair blynedd iddo ddo i rym.
- Hefyd, o bryd i'w gilydd, gall fod angen i ni adolygu'r cynllun hwn, neu gynnig newidiadau iddo, oherwydd newidiadau i'n swyddogaethau, neu i amgylchiadau cyflawni'r swyddogaethau hynny, neu am unrhyw reswm arall.
- Ni newidir y cynllun hwn heb dderbyn cymeradwyaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg i hynny.

Awgrymiadau ar gyfer gwelliant

Bydd Comisiynydd Plant Cymru'n croesawu awgrymiadau ar gyfer gwelliannau i unrhyw agwedd ar y Cynllun Iaith Gymraeg. Dylid anfon awgrymiadau i unrhyw un o swyddfeydd Comisiynydd Plant Cymru. Bydd yr holl awgrymiadau a dderbynnir yn cael eu cydnabod yn ysgrifenedig.

Cyhoeddi gwybodaeth

Bydd diweddariad ar weithrediad y Cynllun yn cael ei gyhoeddi yn Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru, a bydd hefyd ar gael o swyddfeydd y Comisiynydd. Bydd yr wybodaeth hon yn cynnwys cynnydd tuag at weithredu'r Cynllun yn llawn, canran y siaradwyr Cymraeg a gyflogir ac eglurhad ar unrhyw fethiant i gyflawni targedau a disgrifiad o'r camau a gymerwyd i unioni hynny.

Cyhoeddusrwydd

Bydd y Cynllun Iaith Gymraeg yn derbyn cyhoeddusrwydd ar ei gychwyn ac yn barhaus fel a ganlyn:

- a) mewn gweithdai a chyflwyniadau i blant a phobl ifanc
- b) mewn taflen arbennig – addas i bobl ifanc – a anfonir at sefydliadau ac unigolion
- c) mewn unrhyw daflenni a chyhoeddiadau perthnasol a gynhyrchir wedi dyddiad ei fabwysiadu.
- d) ar ein gwefan

Bydd copïau o gyhoeddiadau ar gael oddi wrth Gomisiynydd Plant Cymru ar gais.

Bydd asiantaethau allweddol a'r rheiny sy'n cyflwyno gwasanaethau ar y cyd â Chomisiynydd Plant Cymru neu ar ei ran yn derbyn copïau o'r Cynllun.

Cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth am y Cynllun Iaith Gymraeg hwn cysylltwch â'r canlynol:

Comisiynydd Plant Cymru
Tŷ Ystumllwynarth
Llys y Siarter
Ffordd Ffenics
Llansamlet
ABERTAWE
SA7 9FS

neu

Comisiynydd Plant Cymru
Maenor Penrhos
Oakview Drive
Bae Colwyn
LL29 7YW